



Medrwn Môn

Cynllun Iaith Gymraeg Welsh Language Scheme

Paratowyd y cynllun gwirfoddol hwn yn unol â Chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar dd/mm/bb.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Mae Medrwn Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Medrwn Môn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1. CYFLWYNIAD

Medrwn Môn yw'r Cyngor Gwirfoddol Lleol i holl fudiadau gwirfoddol ar Ynys Môn. Nod y mudiad yw hyrwyddo, cynnal a datblygu gweithgaredd gwirfoddol ar Ynys Môn drwy gyflenwi cyngor a gwybodaeth i holl fudiadau gwirfoddol ar yr ynys.

Bydd swyddfeydd Medrwn Môn wedi'u lleoli yn Llangefni.

Bydd Medrwn Môn yn gwasanaethu poblogaeth o 66,829 sydd wedi eu dosbarthu drwy'r ynys ac wedi'u canoli yng Nghaergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy, Biwmares a Benllech, gydag etholaeth o 54,000 dros Ynys Môn i gyd sydd yn ardal o 72,000 hectar (177,000 erwau).

O'r boblogaeth yma mae 60.1% yn siarad Cymraeg.

Bydd Medrwn Môn yn cyflogi 9 aelod o staff.

2. DWYIEITHRWYDD

Mae Medrwn Môn yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Y Gymraeg a'r Saesneg fydd ieithoedd swyddogol Medrwn Môn a bydd iddynt yr un statws a dilysrwydd yn eu gweinyddiaeth a'u gwaith. Mae amddiffyn a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i ddatblygu oddi fewn neu oddi allan yn nod gan Medrwn Môn.

Bydd Medrwn Môn yn annog, cynorthwyo a chynnal dwyieithrwydd ymysg y gymuned wirfoddol ar Ynys Môn drwy gynnig cyngor ar ddefnydd dwyieithog; cyflenwi gwasanaethau yn iaith y cyhoedd; cynnal gwasanaeth cyfyngedig cyfieithu a defnydd o offer cyfieithu.

3. CYDRADDOLDEB

Mae Medrwn Môn yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb yn neddf yr iaith Gymraeg 1993, a thrwy hynny:

Cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin â Medrwn Môn

Cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith

Cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer dda, nid goddefiad

Cydnabod y gall gwadu yr hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau o'r cyhoedd mewn sefyllfa anfanteisiol.

Bydd y Prif Swyddog yn gyfrifol am gadw gorolwg dros y Cynllun a'i weinyddu, ac am adolygu'r Cynllun ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli.

4. CYNLLUNIO GWASANAETH DWYIEITHOG

4.1. Gweinyddiaeth Fewnol

Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol Medrwn Môn. Anogir y Swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, ac mewn cyfathrebu mewnol.

Anogir staff i gyfathrebu yn y Gymraeg gyda'i gilydd, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Serch hynny, bydd gan aelodau'r staff yr hawl i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, cyn belled â bod hynny'n gyson â darpariaethau'r Cynllun hwn, ac nad yw'n amharu'n sylweddol ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol.

5. CYFLWYNO GWASANAETH DWYIEITHOG

Bydd Medrwn Môn yn darparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar draws eu holl wasanaethau. Ni fydd dewis yr iaith yr ymdrinnir â hi wrth ymhél â gwaith Medrwn Môn, boed hi'n Gymraeg neu'n Saesneg, yn amharu ar effeithiolrwydd a safon y gwasanaeth hwn.

Y nod fydd darparu gwasanaeth o safon ymhob agwedd o waith Medrwn Môn, yn fewnol ac yn allanol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn unol ag ymrwymadau'r Cynllun hwn.

Bydd safon y gwasanaeth hwn yn destun arolygu cyson gan y Prif Swyddog gyda'r nod o wella'r safon yn barhaus.

Bydd y Prif Swyddog hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth dwyieithog a dderbynnir gan fudiadau eraill gyda'r nod o annog, hwyluso a chefnogi'r sefydliadau hyn i ddarparu gwasanaeth dwyieithog cyflawn i'r cyhoedd.

Bydd unrhyw bolisiau neu weithrediadau newydd gan Medrwn Môn yn gyson â'r Cynllun hwn, a bydd y corff yn cysylltu â Bwrdd Yr Iaith Gymraeg ar unrhyw fater fydd yn effeithio ar y Cynllun, ac ni fydd unrhyw newid i'r Cynllun heb ganiatâd y Bwrdd.

6. YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

6.1. Ymdrin â'r Cyhoedd wyneb yn wyneb

Byddwn yn gwneud yn glir bod croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ymdrin â'r staff.

Ymdrinnir ag unrhyw berson sy'n galw yn y swyddfa yn eu dewis iaith.

Cynhelir unrhyw gyfarfod gyda defnyddiwr gwasanaeth neu aelod yn newis iaith y person hwnnw.

6.2. Gohebiaeth Ysgrifenedig

Bydd croeso i'r cyhoedd ymdrin yn ysgrifenedig â Medrwn Môn yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel ei gilydd. Atebir yr ohebiaeth gan Medrwn Môn yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol, a bydd llythyrau a anfonir gan Medrwn Môn, yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn cael eu llofnodi.

Pan fo swyddog yn cychwyn gohebiaeth, dylid defnyddio dewis iaith y derbynnydd, os yw honno'n wybyddus ac, os nad ydyw, dylid cychwyn gohebiaeth yn ddwyieithog.

Pan fo swyddog yn cychwyn gohebiaeth gyda chorff cyhoeddus, dylid cychwyn yr ohebiaeth honno'n ddwyieithog.

Gellir gohebu â chorff cyhoeddus y tu allan i Gymru, fodd bynnag, yn iaith y wlad lle lleolir y corff hwnnw, oni bai fod y corff hwnnw wedi'i wahodd i gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg.

Bydd unrhyw newyddlen, cylchlythyr neu lythyrau safonol a yrrir at y cyhoedd yn ddwyieithog.

Os bydd swyddog yn gohebu ag aelod o'r cyhoedd ar ôl siarad wyneb yn wyneb â nhw yn Gymraeg, neu ar ôl siarad gyda nhw dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr ohebiaeth honno yn y Gymraeg.

Bydd llythyrau ym mha bynnag iaith yn cael eu hateb yn unol â'r targedau a osodir i ymateb i lythyrau.

6.3. Ffonio

Bydd croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ffonio Medrwn Môn.

Bydd negeseuon ar unrhyw beiriant ateb Medrwn Môn yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf.

6.4. Cyfarfodydd Cyhoeddus

Bydd croeso i'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg mewn unrhyw gyfarfod a drefnir gan Medrwn Môn oherwydd defnyddir offer cyfieithu symudol.

Hysbysir y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r ffaith y bydd offer cyfieithu ar gael ac y bydd croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith. Fodd bynnag, y nod fydd gwneud cyfarfodydd dwyieithog yn hollol dderbyniol fel na fydd angen cyhoeddiadau o'r fath. Yn achos cyfarfodydd o'r fath, bydd y sawl sy'n gyfrifol am drefnu'r cyfarfod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod neges yn cael ei chyfleu ar raglen gwahoddiad neu hysbyseb sydd ynglŷn â'r cyfarfod i ddynodi y bydd gwasanaeth cyfieithu yn y cyfarfod.

6.5. Ymdrin â'r Cyhoedd mewn ffyrdd eraill

Yn wyneb datblygiadau sylweddol ym maes technoleg gwybodaeth, bydd unrhyw gysylltiadau â'r cyhoedd, drwy gyfrwng cyfrifiadurol yn cynnwys e-byst, yn dilyn y mesurau a osodwyd yn achos 'Gohebiaeth' uchod.

Bydd y wefan yn hollol ddwyieithog gyda chyfeiriadau at gyrrff eraill megis Menter Iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ayb.

Mewn manau arddangos bydd y deunydd a arddangosir yn ddwyieithog.

Bydd Medrwn Môn yn darparu canllawiau a hyfforddiant priodol i staff ar drefniadau wrth ymdrin â'r cyhoedd.

7. WYNEB CYHOEDDUS GWASANAETHAU GWIRFODDOL YNYS MÔN

7.1. Hunaniaeth Gorfforaethol

Bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol Medrwn Môn yn gwbl ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys enw Medrwn Môn, ei gyfeiriad, papur pennawd, cyhoeddiadau a holl ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus, boed hwnnw ar ffurf adroddiad, arwydd, ffurflen, hysbysiad, rhybudd neu ysgrifen ar adeilad.

Yn achos arwyddeiriau, megis 'Dan Do Môn' ni fyddant yn cael eu cyfieithu.

7.2. Arwyddion

Bydd holl arwyddion mewnol ac allanol yn gwbl ddwyieithog.

Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwyddion, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd

ag ansawdd, a bydd y Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg, neu, os ydyw'r ddwy iaith yn gyfochrog, ar y chwith.

7.3. Cyhoeddi ac argraffu deunydd cyhoeddus

Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddus a gyhoeddir yn gwbl ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau, cofnodion, ffurflenni, polisïau.

Yn achos cyrff eraill a fydd yn arddangos eu deunydd, bydd Medrwn Môn yn cynnig cymorth e.e. gwybodaeth am grantiau, gwasanaethau cyfieithu ac argraffu.

Bydd y deunydd yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar un ddalen neu yn yr un ddogfen yn gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith, Saesneg ar y dde, neu gefn wrth gefn.

7.4. Taflenni, llyfrynnau, ffurflenni a deunydd esboniadol

Bydd yr uchod, sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau cyhoeddus Medrwn Môn, yn gwbl ddwyieithog.

Bydd deunydd o'r fath yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog ar yr un ddalen, neu yn yr un ddogfen, yn gyfochrog, Cymraeg ar y chwith, Saesneg ar y dde, neu gefn wrth gefn. Mewn unrhyw arddangosfa, dangosir y ddwy ochr.

7.5. Cysylltiadau â'r Wasg a'r Cyfryngau

Bydd pob datganiad i'r wasg neu i'r cyfryngau yn gwbl ddwyieithog.

7.6. Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

Bydd mentrau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn rhai cwbl ddwyieithog ym mha bynnag ffurf y bo, e.e. datganiadau, taflenni, posterï ayb.

Bydd unrhyw ymgyrch farchnata a gynhelir gan, neu ar ran Medrwn Môn, yn rhai cwbl ddwyieithog.

7.7. Hysbysebion Swyddi

Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi yn yr iaith Gymraeg gyda pharagraff esboniadol yn Saesneg.

7.8. Ffilmiau, fidio, tapiau a deunydd clyweledol

Bydd yr uchod sy'n gysylltiedig â Medrwn Môn unai yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Lle bo cynulleidfa yn ddwyieithog, dylid defnyddio'r ddwy iaith gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.

7.9. Arddangosfeydd, Cynadleddau a Seminarau

Bydd deunydd arddangos cysylltiol mewn perthynas â'r uchod yn ddwyieithog bob amser, gyda'r Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg, pa ddiwyg bynnag sydd fwyaf perthnasol.

8. GWEITHREDU'R CYNLLUN

8.1. Staffio

Er mwyn sicrhau gwasanaeth cyfartal yn Gymraeg a'r Saesneg, rhaid sicrhau bod y swyddogion yn gallu ymdrin â'r cyhoedd yn eu dewis iaith.

Bydd y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn Medrwn Môn.

Bydd Medrwn Môn yn sicrhau yr atebir pob galwad ffôn yn ddwyieithog.

Yn hynny o beth, wrth lunio pob disgrifiad swydd rhoddir ystyriaeth i'r angen am fedruswydd ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg a'r Saesneg.

8.2. Dysgu Cymraeg

Anogir unrhyw aelod o staff nad yw yn ddigon hyddysg yn yr iaith Gymraeg i wella ei allu. Bydd y math o gwrs yn fater o drafodaeth rhwng y Prif Swyddog a'r aelod o staff sydd angen gwella'r safon. Darperir cyrsiau addas ar gyfer dysgwyr ynghyd â chefnogaeth yn y gweithle.

Darperir hyfforddiant addas ar gyfer swyddogion dwyieithog sydd eisiau gwella safon eu Cymraeg llafar neu ysgrifenedig a bydd amser a chyllid i staff ar gyfer cyrsiau yn unol â pholisi gweithredol Medrwn Môn.

8.3. Recriwtio

Bydd y Gymraeg yn fedr hanfodol i bob swydd gyda Medrwn Môn, a hysbysebir y swydd felly.

Yn achos ymgeiswyr am swyddi, os cyfyd sefyllfa lle bo'r ymgeiswyr yn gyfartal o safbwynt cymwysterau ffurfiol, profiad ayb, bydd lefel medruswydd mewn sgiliau dwyieithog yn arwain y penderfyniad.

8.4. Hyfforddiant Galwedigaethol

Wrth drefnu hyfforddiant galwedigaethol bydd gofyn hysbysu staff am gyrsiau priodol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd anogaeth i'r staff ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol.

8.5. Gwasanaeth Cyfieithu

Bydd staff Medrwn Môn yn cyfieithu unrhyw ddeunydd, a chynigir hyfforddiant i'r rhai hynny nad ydynt yn teimlo'n hyderus.

Bydd unrhyw ddogfennau, adroddiadau neu lythyrau a dderbynnir oddi wrth sefydliad, corff neu unigolyn, nad ydynt yn cynrychioli cyrff cyhoeddus, yn Saesneg yn cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig. Bydd unrhyw ddogfennau, adroddiadau neu lythyrau o'r fath a dderbynnir yn Gymraeg, yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg ac yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog.

Gofynnir i gyrff cyhoeddus gyflwyno unrhyw ohebiaeth neu adroddiadau yn ddwyieithog.

Bydd gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dymuniad yng nghyfarfodydd Medrwn Môn, a darperir offer cyfieithu symudol.

8.6. Offer Cyfieithu Symudol

Mae gan Medrwn Môn ddefnydd offer cyfieithu symudol, ac ar gael nid yn unig i weithgareddau Medrwn Môn, ond hefyd i'w fenthyca i'r gymuned, ac felly yn hyrwyddo cyfleon i aelodau o'r cyhoedd siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

Mae'r offer yn hawdd i'w roi at ei gilydd, ond cynigir help i unrhyw grŵp sydd am fenthyca'r offer. Mae'r offer ar gael drwy Menter Iaith Môn.

Mae rhestr o gyfieithwyr lleol ar gael oddi wrth Menter Iaith Môn

8.7 Biwro Gwirfoddoli

Hyrwyddir defnydd o'r iaith Gymraeg i wirfoddolwyr sy'n cofrestru gyda Medrwn Môn. Byddwn yn cadw cofnod o sgiliau ieithyddol gwirfoddolwyr ar ein bas data.

Byddwn yn holi cyrff gwirfoddol sydd yn edrych am wirfoddolwyr a ydynt angen gwirfoddolwyr sydd yn siarad Cymraeg a gwneud pob ymdrech i greu'r cyswllt.

9. AROLYGU'R CYNLLUN

Bydd y Prif Swyddog yn monitro'n rheolaidd y broses o weithredu'r Cynllun ac yn adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Rheoli ac i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cynhwysir y canlynol yn y broses monitro:

Blaengynllunio: bod trefniadau yn eu lle i wneud yn siŵr bod y Cynllun yn cael ei weithredu yn gyson a safonol ar draws y sefydliad heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Ymwybyddiaeth: sut mae staff unigol a'r sefydliad yn gorfforaethol yn gwybod beth sydd angen ei wneud i weithredu holl agweddau'r Cynllun yn llwyddiannus.

Cynnal y Cynllun: bod trefniadau yn eu lle i gynorthwyo a hwyluso gweithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd.

Sgiliau Dwyieithog: bod trefniadau yn eu lle i fesur yr angen am sgiliau dwyieithog ac i ddiwallu'r angen hwnnw.

Cwynion: faint o gwynion a gafwyd a beth oedd natur y cwynion.

Monitro Mewnol: Y trefniadau a phrosesau sydd yn eu lle i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu yn gyson a safonol a hynny'n barhaus ar draws y sefydliad.

Monitro Allanol: Y gweithdrefnau monitro allanol sydd ar waith fel prawf annibynnol fod y Cynllun yn cael ei weithredu yn llwyddiannus

Gwasanaeth gan eraill: Sut i ni'n sicrhau y bydd contractwyr a phartïon eraill yn gweithredu agweddau perthnasol y Cynllun

Amserlen: Y camau rydym fel corff yn eu cymryd i gadw at dargedau'r amserlen weithredu sydd yn y Cynllun

9.1. Targedau

- i. Bydd materion sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol a wyneb cyhoeddus Medrwn Môn yn gyfan gwbl ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.
- ii. treialu defnydd o fersiwn Gymraeg Microsoft Windows ac Office
- iii. datblygu tudalen ar y wefan sy'n cyfeirio at gymorth i hwyluso dwyieithrwydd
- iv. hybu defnydd o gyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg i staff.
- v. hyrwyddo cyrsiau gloywi iaith i staff
- vi. creu'r cyswllt rhwng gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg a chyrrff gwirfoddol sydd angen siaradwyr Cymraeg

- vii. cyflwyno adroddiad monitro blynyddol ar y Cynllun Iaith i Fwrdd Medrwn Môn ac ymhen tair blynedd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg
- viii. Bydd y cynllun yn cael ei werthuso yn ei gyfanrwydd ar ôl cyfnod a tair blynedd o'r dyddiad gymeradwyaeth.
- ix. Mae targed ar gyfer ymateb i ohebiaeth, fel y crybwyllwyd uchod, yn 7 diwrnod gwaith, ac mae hyn yn cynnwys llythyrau Cymraeg a Saesneg.

9.2. Adrodd i'r Pwyllgor Rheoli

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn flynyddol i'r Pwyllgor Rheoli ynglŷn â gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg ac yna bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

9.3. Gwella'r Gwasanaeth

Bydd Medrwn Môn yn falch iawn o dderbyn sylwadau ac awgrymiadau gan y cyhoedd ar sut i wella'r gwasanaeth dwyieithog a roddir iddynt. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau at y Prif Swyddog.

10. GWEITHREDU

Yn dilyn y broses ymgynghorol, gweithredir y Cynllun ar ddyddiad ei gymeradwyaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.